

Newyddlen Gwasanaethau Anabledd

Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor.

Ffôn: 01248 383620 / 382032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Medi 2019 - Rhifyn 52

Myfyrwyr Newydd - Y Penwythnos y byddwch yn cyrraedd Bangor

Dydd Sadwrn 14 Medi / Dydd Sul 15 Medi



Croeso i Fangor!

Mae'r flwyddyn academiaidd newydd ar ein gwarthaf a byddwch ar eich ffordd i Fangor yn fuan iawn! Byddwch yn cael digon o wybodaeth am weithgareddau'r Wythnos Groeso gan eich Ysgol a chan Undeb y Myfyrwyr. Cofiwch fanteisio ar bob cyfle i ymuno mewn unrhyw weithgareddau sy'n apelio atoch, ond hefyd gofalu ymlacio tipyn pan fedrwch cyn dechrau'r tymor.

Bydd y rhai ohonoch sydd wedi archebu ystafelloedd yn y Neuaddau Preswyl yn cyrraedd ddydd Sadwrn 14 neu ddydd Sul 15 Medi. Bydd staff y Neuaddau, wardeniaid ac arweinwyr cyfoed yno i'ch helpu i ymgartrefu a gallant gynorthwyo gyda'ch holl ymholiadau cyffredinol.

Dewch i gyfarfod â'r Cynghorwyr!

Os hoffech gael sgwrs gydag un o'r **cynghorwyr**, byddant ar gael yn pentre Ffriddoedd rhwng **2pm - 6.00pm ddydd Sadwrn** a **10am - 2pm ddydd Sul**. Galwch i mewn i'n gweld yn ystafell gyffredin Alaw <https://www.bangor.ac.uk/mapcampws> neu cysylltwch â ni erbyn dydd Iau, 12 Medi os hoffech archebu apwyntiad penodol.

Os na fyddwch yn llwyddo i'n gweld dros y penwythnos hwnnw, neu os nad ydych yn mynd i fod yn byw mewn neuaddau, cofrestrwch gyda ni fel y gallwn ddechrau dod i'ch adnabod ac ysgrifennu eich Cynlluni Cefnogi Dysgu Personol (CCDP).

✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk neu ☎ Gemma / Tracey ar 01248 383620 neu 382032.

Dymuniadau gorau oddi wrth Esther, Ruth, Steph, Fiona a Cheryl.

Yn y rhifyn hwn

Myfyrwyr Newydd - Y Penwythnos y byddwch yn cyrraedd Bangor	1
Yn y rhifyn hwn.....	2
Pwy ydym ni?	3
Diwrnod Cynefino i Fyfyrwyr sy'n byw gartref - Dydd Mawrth 10 Medi	9
Myfyrwyr Di-breswyl.....	9
Sesiynau galw heibio i gael gwybodaeth - Dydd Mercher 18 & Dydd Iau 19 Medi.....	10
Canolfan Access Prifysgol Bangor - help gyda'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ar gyfer pob anabledd	11
Cynghorion Setlo I Fywyd fel Myfyriwr.....	12
Tîm Dyslecsia Sesiynau Galw-i-Mewn.....	14
Sesiwn Galw Heibio Cynghorwyr Anabledd	15
Cyflwyniad i Wasanaethau TG	16
SensusAccess - troi dogfennau'n ddiraffferth	16
Sesiynau Galw Heibio ar gyngor Iechyd Meddwl.....	17
Y Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr.....	18
Big White Wall	19
Llwyddiannau	22
Jan yn derbyn cefnogaeth gan Prifysgolion Santander.....	22
Graddio Gorffennaf 2019	23
Cyflwyniad i Mark Barrow, Llywydd Undeb Bangor	25
Cyflwyniad i Harry Riley, Is-lywydd Addysg.....	26
Cynrychiolwyr Cwrs	27
UNITE Bangor.....	28
Socialeyes.....	29
Ein Manylion Cyswllt	34

Pwy ydym ni?

Pennaeth Gwasanaethau Anabledd

Carolyn Donaldson-Hughes



MEd, AAG (Nam ar y Golwg), CertEd,
Pennaeth Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau
Myfyrwyr

Prif gyfrifoldeb Carolyn yw rheoli gweithrediadau'r Gwasanaeth Anabledd a Chanolfan Fynediad Bangor. Mae ganddi gyfrifoldeb hefyd dros ddatblygu polisiau'n ymwneud â darpariaeth i fyfyrwyr anabl ar draws y Brifysgol. Mae gan Carolyn dros 30 mlynedd o brofiad yn gweithio ym maes Cefnogi Dysgu mewn Addysg Bellach ac Uwch. Bu'n cydlynu Gwasanaeth Cefnogi Dysgu Estyn Allan ar draws Canolbarth Lloegr cyn ymuno â'r Brifysgol 19 mlynedd yn ôl.

Tîm Gweinyddu

Tracey Morris

NVQ Lefel 3 mewn Busnes a Gweinyddu
Gweinyddwr

Ymunodd Tracey â'r tîm ddiwedd Tachwedd 2005, a chyn hyn, bu'n gweithio mewn swyddfa brysur i Gyfreithwyr. Mae Tracey yn anelu at roi gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar i'r holl fyfyrwyr y mae'n cyfarfod â hwy



Gemma Watts



BA
Cynorthwydd Gweinyddol

Ymunodd Gemma â'r tîm ym mis Gorffennaf 2017 a chyn hynny bu'n gweithio mewn canolfan hyfforddi preswyl i'r Gwasanaethau Argyfwng. Gemma fydd y cyswllt cyntaf i fyfyrwyr sy'n cysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd ac mae wedi ei lleoli yn y Dderbynfa, Llawr Gwaelod Isaf, Rathbone.

Esther Griffiths

BA Econ, PG Dip, CACDP (Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1)
Uwch Gynghorwr Anabledd

Ymunodd Esther â'r tîm fel Cynghorwr Anabledd yn Awst 2010. Mae Esther wedi gweithio ym maes darpariaeth i'r anabl mewn Addysg Uwch am tua 22 blynedd. Bu'n gweithio ym Mhrifysgol Manceinion, yn ogystal ag ym Mangor cyn hynny mewn sawl swydd, yn cynnwys rheoli'r Ganolfan Fynediad.



Mae gan Esther gyfrifoldeb rheoli uniongyrchol dros y Cynghorwyr Anabledd, y Cynllun Mentora a'r Cynllun Gweithwyr Cynnal.

Ruth Coppell



MA S.E.N, PG Dip ABA, BSc
Cynghorwr Anabledd

Ymunodd Ruth â'r tîm ym Medi 2014 fel Cynghorwr Anabledd. Mae gan Ruth radd Meistr mewn Anghenion Addysgol Arbennig ac mae wedi gweithio ym maes anabledd am dros 19 mlynedd mewn amrywiaeth o sectorau. Cyn dod i'r swydd hon roedd yn Aseswr Anghenion Astudio DSA yng Nghanolfan Access Prifysgol Bangor ac mae wedi gweithio yno er 2008. Mae gan Ruth gefndir hefyd mewn Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol, yn ogystal â gofalu am bobl ifanc gyda chyflyrau byrhau bywyd.

Stephanie Horne

MSc, BSc (Hons)
Cynghorwr Anabledd

Ymunodd Steph â'r tîm fis Tachwedd 2015 fel Cynghorwr Anabledd. Dechreuodd Steph weithio ym Mhrifysgol Bangor fel Ymchwilydd yn y Ganolfan Niwrowyddoniaeth Wybyddol yn yr adran Seicoleg. Ers hynny, mae hi wedi gweithio mewn swyddi sydd a wnelont ag anabledd am saith mlynedd ar ddeg. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r swyddi a fu ganddi yn cynnwys Aseswr Anghenion Astudio DSA, gweithio mewn gwasanaeth cyflenwi offer DSA, hyfforddwr Technoleg Gynorthwyol a Rheolwr Canolfan Mynediad.



Fiona Rickard



BSc, RMN

Cynghorwr Iechyd Meddwl

Ymunodd Fiona â'r tîm yn Hydref 2004, a Chynghorwr Iechyd Meddwl yw ei phrif swyddogaeth. Astudiodd Fiona Wyddorau Cymdeithas ym Mhrifysgol Bradford. Yna, bu'n gweithio fel Gwirfoddolwr Gwasanaeth Cymunedol ac fel Cynorthwy-ydd Nyrsio cyn hyfforddi fel Nyrs Seiciatryddol. Fel Nyrs Seiciatrig Gymunedol, mae ganddi brofiad o weithio gyda gwahanol Dimau Iechyd Meddwl yn Swydd Efrog ac yng Ngogledd Cymru.

Cheryl Parkinson

MSc, Sc, BSc, RMN, PGCE, PGDip Professional Development, DipCBT
Cynghorwr Iechyd Meddwl

Ymunodd Cheryl a'r tîm ym mis Tachwedd 2011 fel Ymgynghorydd Iechyd Meddwl. Mae Cheryl wedi gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ym Manceinion a Chymru ers dros 28 mlynedd- ar ôl hyfforddi fel Nyrs Iechyd Meddwl Cofrestredig ym 1988. Daeth Cheryl i weithio ym maes addysg yn 2007 ac mae ganddi brofiad o ddarlithio ar lefelau AU a AB.



Tîm Dyslecsia

Jane Jones

PhD, MA, PGCert HE, ATS BDA, BA

Rheolwr ADP

Ymunodd Jane â'r Gwasanaeth Dyslecsia ym mis Chwefror 2013. Cyn hyn astudiodd ym Mhrifysgol Bangor, cyn mynd ymlaen i ddarlithio ym Mhrifysgol Caer a Phrifysgol Aberystwyth. Yn ystod yr amser hwn, ymgwymerodd Jane hefyd â swyddi gweinyddol Tiwtor Cyswllt Anabledd, Cefnogaeth ar gyfer Amgylchiadau Arbennig mewn Arholiadau, a Thiwtor Blwyddyn, gan roi cefnogaeth fugeiliol i fyfyrwyr. Prif gyfrifoldeb Jane yw rheoli darpariaeth y gwasanaeth Anawsterau Dysgu Penodol yn y Gwasanaeth Anabledd.



Andrea Reynolds



PhD Seicoleg
Cynghorwr ADP

Ymunodd Andrea â'r Tîm Dyslecsia yn Awst 2015. Mae ganddi sawl blwyddyn o brofiad ymchwil, yn canolbwyntio ar ddyslecsia mewn oedolion yn ogystal â phrofiad yn rhoi cefnogaeth ddysgu mewn addysg uwch. Yn ei swydd fel Cynghorwr SpLD, mae'n rhoi cefnogaeth a chynghor i fyfyrwyr, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu strategaethau dysgu priodol i gyflawni eu hamcanion academaidd.

Rafaela Williams

AMBDA, 9485, PGCE, BA
Cynghorwr ADP

Mae Rafaela wedi gweithio ym maes addysg oedolion, addysg bellach ac addysg uwch ers dros 24 mlynedd fel tiwtor llythrennedd/gwahaniaethau dysgu penodol, darlithydd gwyddorau cymdeithas a rheolwr cwricwlwm. Fel athrawes ac Ymgynghorydd Anawsterau Dysgu Penodol, mae Rafaela yn mwynhau gweithio gydag oedolion i oresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial.



Rhian Graham



M.A., B.A., PGCE, CQSW, CFPS. (Language Diff.), Dip. in Theology (Welsh). Reg. with GPTI. and UKCP.

Tiwtor ADP

Mae Rhian wedi gweithio yn y Brifysgol am 12 mlynedd, a thros y 9 blynedd diwethaf, mae wedi magu profiad amrywiol a helaeth o weithio fel tiwtor Anawsterau Dysgu Penodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Rhian yn ceisio gweithio mewn ffordd gydlynol gyda myfyrwyr, a gall ffocws y gwaith ganfod a hwyluso strategaethau dysgu unigol, datblygu sgiliau academaidd priodol a gwella hunanhyder a gwytnwch.

Fiona Zinovieff

PhD, BA, BDA APS
Tiwtor ADP

Rwyf wedi gweithio gyda myfyrwyr o Fangos sydd â dyslecsia ac SpLDs eraill am dros 23 mlynedd, yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i strategaethau i ddatgloi eu potensial dysgu a chael yr hyder i gyflawni eu potensial drwy eu defnyddio.



Christine Roberts



Ymunodd Christine â'r tîm ym Medi 2017 fel Cydlynnydd Cymorth Anfeddygol. Dechreuodd Christine weithio ym Mhrifysgol Bangor fis Hydref 2002 yn rhoi cymorth gweinyddol yn y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth. Mae hi wedi bod wrthi'n gweithio'n galed iawn dros y 16 mlynedd diwethaf, a chael sawl dyrchafiad. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n gwneud gwahanol swyddi gan gynnwys Gweinyddwraig y Ganolfan ACCESS a chydlynu'r DSAkit a'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (ECDL).

Canolfan Access Bangor

Dylan Griffiths

PhD, MMath(Hons), CACDP (BSL Level 1), PGCert HE, AMBDA
Rheolwr Canolfan Access

Ymunodd Dylan â'r tîm fel tiwtor Anhawster Dysgu Penodol (SpLD) yn 2006 ac ers hynny mae wedi gweithio mewn llawer o swyddogaethau cefnogi yn y Gwasanaethau Anabledd. Bu'n cymryd nodiadau mewn darlithoedd, yn fentor, yn gydlynnydd NMH ac yn gynghorwr SpLD, yn ogystal â sgrinio ac asesu myfyrwyr ar gyfer SpLDs. Bellach ef yw Rheolwr y Ganolfan Asesu, gan oruchwylio'r gwaith sgrinio, asesiadau diagnostig ac asesiadau anghenion astudio. O ystyried ei swyddogaethau drwy gydol y broses Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA), gall Dylan hefyd roi cyngor a chefnogaeth ynghylch unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â DSA.



Mae Dylan wedi dal gafael ar ran o'i swyddogaeth tiwtor SpLD, lle mae'n rhoi cefnogaeth mewn mathemateg i fyfyrwyr sydd yn derbyn y gwasanaeth Sgiliau a Strategaethau Astudio Un i Un Arbenigol.

Ymunodd Ayeisha â'r tîm gyntaf yn 2012. Gan weithio i ddechrau fel Ysgrifennwr Nodiadau a Mentor Arbenigol, mae ganddi lawer o brofiad o gefnogi myfyrwyr a gwybodaeth dda am y cyrsiau a gynigir gan Brifysgol Bangor. Dechreuodd weithio fel Asesydd Anghenion Astudio yn 2016 a gall gynghori myfyrwyr ac ateb ymholiadau, yn ogystal ag argymhell cefnogaeth ac offer priodol ar gyfer anghenion unigol myfyrwyr.

Ayeisha McGugan



BSc, PGCert

Asesydd Anghenion Astudiaeth

Ymunodd Ayeisha â'r tîm gyntaf yn 2012. Gan weithio i ddechrau fel Ysgrifennwr Nodiadau a Mentor Arbenigol, mae ganddi lawer o brofiad o gefnogi myfyrwyr a gwybodaeth dda am y cyrsiau a gynigir gan Brifysgol Bangor. Dechreuodd weithio fel Asesydd Anghenion Astudio yn 2016 a gall gynghori myfyrwyr ac ateb ymholiadau, yn ogystal ag argymhell cefnogaeth ac offer priodol ar gyfer anghenion

unigol myfyrwyr.

Mae Ayeisha yn dal i weithio fel Mentor Arbenigol, yn cefnogi myfyrwyr i reoli eu hastudiaethau a chyflawni eu hamcanion tra maent yma ym Mangor. Mae cael dwy swyddogaeth o fewn y Gwasanaethau Anabledd yn rhoi trosolwg da i Ayeisha am yr holl broses DSA a phrofiad myfyrwyr.

Teresa Critchlow

Gweinyddwr Canolfan Access

Mae Teresa wedi bod ar staff Prifysgol Bangor ers amser maith gan ddechrau gweithio yma nôl ym mis Medi 1989 fel un o'r staff glanhau yn Undeb y Myfyrwyr. Mae wedi gweithio'n galed dros y 29 mlynedd ddiwethaf, ac wedi cael ei dyrchafu amryw o weithiau. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi gweithio fel derbynnydd i Undeb y Myfyrwyr, gweinyddwr yng Nghanolfan Gyngori UyM, ac am y 6 blynedd ddiwethaf mae wedi bod yn rhan o'r tîm Cefnogi Myfyrwyr, gan weithredu fel derbynnydd a chydlynu digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae'r Gwasanaethau Anabledd yn gyfarwydd iddi, gan ei bod wedi gweithredu yn lle staff eraill ar brydiau yn y Ganolfan Asesu, gan drefnu apwyntiadau ar gyfer asesiadau diagnostig.



Diwrnod Cynefino i Fyfyrwyr sy'n byw gartref - Dydd Mawrth 10 Medi

Os ydych yn fyfyrwr o Ogledd Cymru a fydd yn byw gartref yn ystod eich astudiaethau a theithio i'r Brifysgol, efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn dod i achlysur sydd wedi'i drefnu'n arbennig i chi.

Cynhelir y Diwrnod Cynefino i fyfyrwyr sy'n byw gartref ar Dydd Mawrth, 10 Medi 2019 o 10yb - 2.30yh yn Neuadd PJ yma ym Mhrifysgol Bangor.



Mae'n gyfle i chi gyfarfod â myfyrwyr eraill a fydd, fel chi, yn teithio'n ddyddiol i'r Brifysgol, a gwneud ffrindiau hyd yn oed cyn i'ch cwrs ddechrau.

Yn ystod y digwyddiad byddwch yn cael cyflwyniad gan fyfyrwyr presennol a fydd yn rhannu eu profiadau gyda chi, yn ogystal â sesiynau gwybodaeth byr gan y Gwasanaethau Cefnogi. Byddwch yn cael taith hefyd o amgylch safle Prif Adeilad y Celfyddydau a gweld ein cyfleusterau llyfrgell.

Byddwch yn cael mwy o wybodaeth a gwahoddiad i'r digwyddiad yn y Dyddiadur Wythnos Groeso a gaiff ei anfon atoch dros yr haf.

Myfyrwyr Di-breswyl

Ddim yn byw mewn Neuadd Breswyl? Gall y wybodaeth ganlynol fod o werth i chi:

- ♦ Mi allech chi wneud trefniadau i gwrdd â rhywun y cwrddoch chi â nhw yn ystod y Diwrnod Agored neu Ddiwrnod Cynefino'r Myfyrwyr Cartref ar yr 11^{fed} o fis Medi 2018, i fynd i'r croeso ffurfiol, eich darlith gyntaf gyda'ch gilydd, neu i gwrdd am goffi cyn hynny neu wedyn.
- ♦ Gellwch ddefnyddio Ystafell Gyffredin ar Lawr Isaf Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg fel canolfan pan fyddwch yn y brifysgol. Cysylltwch â gwasaethanabledd@bangor.ac.uk i gael y Cod Mynediad.
- ♦ Cofiwch bod manteision i fod yn fyfyrwr di-breswyl, megis peidio â gorfod gadael cartref, teulu a ffrindiau.
- ♦ Ceisiwch fynd i rai o'r gweithgareddau a gynhelir yn y brifysgol i wneud i chi deimlo eich bod yn perthyn yno. Os yw'n anodd i chi aros gyda'r nos, e.e. oherwydd gofynion teuluol neu bellter, efallai bod yna rai [cymdeithasau](#) addas sy'n gweithredu yn ystod y dydd.

- ◆ Mae'n ddealladwy bod yna lawer nad ydych yn ei wybod. Peidiwch â bod ofn gofyn. Mae yna lawer o bobl yma i'ch helpu, o gael hyd i ystafell ddarlithio i roi cyngor ariannol. Bydd y staff i gyd yno i'ch helpu chi cymaint â'r myfyrwyr sy'n byw i mewn.

Sesiynau galw heibio i gael gwybodaeth - Dydd Mercher 18 & Dydd Iau 19 Medi

Myfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol: Dyslecsia, Dyspracsia, Dyscalcwlia, ADP

Galwch heibio i gael gwybodaeth am:

- Sgiliau Astudio Un-i-un Arbenigol a chefnogaeth strategaeth
- Sut y gallwn ni eich helpu chi

Pryd?


- Dydd Mercher, 18 Medi: 2 – 4 pm
- neu Ddydd Iau, 19 Medi: 2 – 4 pm

Lle?

Gwasanaethau Anabledd, Adeilad Rathbone, Llawr Gwaelod Isaf

Canolfan Access Prifysgol Bangor - help gyda'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ar gyfer pob anabledd

Cawsom ein sefydlu fel y Ganolfan Asesu Anghenion gyntaf yng Nghymru, a ni yw'r unig Ganolfan Asesu sydd yn y Brifysgol. Ni felly yw'r unig ganolfan sydd â gwybodaeth fanwl o gwricwlwm a chyfleusterau'r Brifysgol. Gallwn hefyd gysylltu'n uniongyrchol â'r Gwasanaethau Anabledd i helpu gyda chefnogaeth.



Rydw i wedi gwneud cais am Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl - beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith y cewch chi e-bost neu lythyr gan eich corff cyllido sy'n cadarnhau eich bod yn gymwys ar gyfer Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, cysylltwch â ni a gallwn ni drefnu Asesiad Anghenion Astudio i chi.

Beth yw Asesiad Anghenion Astudio?

Cyfarfod cyfeillgar ac anffurfiol rhwng yr aseswr achrededig a'r myfyriwr yw Asesiad Anghenion Astudio. Yn ystod y cyfarfod byddwn yn edrych yn fanwl ar eich cwrs chi ac ar strategaethau ac ar y rhwystrau sydd i ddysgu sy'n gysylltiedig ag anabledd. Yn ystod Asesiad yr Anghenion Astudio bydd yr aseswr yn trafod gwahanol bosibiliadau i'ch cynorthwyo chi, a bydd yn dangos technoleg gynorthwyol briodol i chi (e.e. meddalwedd). Yna byddwn yn gallu gwneud argymhellion penodol a phwrpasol ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Caiff yr holl wybodaeth ei chasglu i lunio Adroddiad Asesu Anghenion ac mi gaiff hwnnw ei anfon i'r corff ariannu ei ystyried.

Mae gan bob aseswr o leiaf chwe blynedd o brofiad o helpu gyda'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, a bu pob un ohonynt yn fyfyrwr ym Mangor.

Beth sy'n digwydd ar ôl cyfarfod yr Asesiad Anghenion Astudio?

Unwaith y bydd yr Adroddiad Asesu Anghenion wedi mynd i'r corff cyllido, mi wnân nhw gysylltu â chi ynglŷn â'r gefnogaeth sydd wedi ei chytuno. Os gwnaethoch chi cydsynio yn ystod y cyfarfod, mi wnawn ni drosglwyddo'r cytundeb i'r darparwyr cymeradwy er mwyn iddyn nhw fynd ati i drefnu'r gefnogaeth ar eich cyfer chi.

Ble caf i ragor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am unrhyw agwedd ar Lwfansau Myfyrrwyr Anabl, neu broses y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, cysylltwch â ni yn canolfan_access@bangor.ac.uk, ☎ 01248 388101 neu galwch heibio i'n gweld ar Lawr Cyntaf Neuadd Rathbone (Gwasanaethau Myfyrrwyr).



Ayeisha, Asesydd a Dylan, Rheolwr Gwasanaeth Asesu.

Rydym yn helpu pob myfyriwr anabl a gallwn roddi cymorth ac arweiniad trwy gydol proses y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ar ei hyd.

Cynghorion Setlo I Fywyd fel Myfyriwr

1. Disgwyliwch rai troeon.

P'un a ydi hwn y tro cyntaf erioed i chi fynd oddi cartref neu os ydych yn dychwelyd ar ôl seibiant, mae dechrau blwyddyn newydd mewn prifysgol yn golygu y byddwch yn wynebu pethau newydd, ac i bawb ohonom gall newid cadarnhaol hyd yn oed fod yn straen.

Gall newid ein cyfnerthu a'n drysu ar yr un pryd. A ninnau ymhell o amgylchedd a chynhaliaeth gyfarwydd, gallwn gael ein bod yn teimlo bod tasgau y byddem, fel arfer, wedi ymdopi â hwy'n rhwydd yn codi ofn arnom.

Gall yr ychydig ddiwrnodau cyntaf beri cryn ddryswch - gyda chynifer o wynebau newydd, lleoedd newydd a phethau i'w gwneud. Nid yw'n anarferol nac yn syndod os ydych yn teimlo eich bod ar goll neu'n unig yn y sefyllfa hon.

Efallai bod myfyrwyr eraill yn teimlo'r un peth - mae hon yn adeg ddelfrydol i wneud ffrindiau a chynnal eich gilydd.

2. Gofalwch amdanoch eich hun.

Mae gwneud ffrindiau'n cymryd amser. Bydd eich ffrindiau newydd a'ch cyfoedion yn cymryd amser i ddod i'ch adnabod yn ddigon da i wybod beth rydych yn ei deimlo a'i feddwl. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid ichi edrych ar eich ôl eich hun. Bydd angen ichi feddwl am eich anghenion a rhoi o'ch amser a'ch egni fel y bydd pethau'n digwydd.

3. Cymerwch amser i adfyfyrio.

Gall symud i Brifysgol fod yn gyfle gwych i ddarganfod pwy ydych a sut rydych am fyw eich bywyd. Efallai y byddwch yn awyddus i arbrofi â ffyrdd newydd o fyw a rhoi gynnig ar bethau newydd. Mae mynd oddi ar y nyth ynddo'i hun yn anferth o brofiad newydd i lawer o fyfyrwyr.

Bydd cymryd amser i adfyfyrio ar y profiadau newydd hyn yn gymorth ichi benderfynu drosoch eich hun ynglŷn â'r hyn sy'n iawn i chi, gyda phwy rydych am dreulio eich amser, nau'r hyn yr ydych am gymryd rhan ynddo.

Bydd cymryd amser bob dydd i ymlacio yn eich helpu i ddod i arfer â'ch bywyd newydd a'i fwynhau.

4. Manteisiwch i'r eithaf ar gyfleoedd i gael hyd i'r bobl rydych yn eu hoffi ac yn cyd-dynnu â hwy.

Mae Prifysgol yn gyfle gwych i wneud ffrindiau. Cewch hyd i bobl sy'n meddwl yn debyg i chi, ac sydd â diddordebau a phersonoliaeth gyffelyb, efallai y byddant yn yr ystafell nesaf, neu efallai y bydd angen ichi gael hyd i'ch gilydd. Mae ymuno â chymdeithasau a mynd i ddiwyddiadau cymdeithasol yn ffordd wych o gwrdd ag eraill.

Gwnewch bethau y byddwch yn sicr o'u mwynhau, mentrwch wneud rhywbeth newydd, a dywedwch 'Na' os byddwch yn teimlo dan bwysau i wneud unrhyw beth sy'n gwneud ichi deimlo'n anesmwyth.

5. Byddwch yn drefnus o'r cychwyn.

Mae bywyd mewn Prifysgol yn cynnig llawer o ryddid ichi, sy'n gofyn ichi fod yn hunan-ysgogol ac yn drefnus. Bydd angen ichi feddwl am sut i rannu eich amser a chael hyd i gydbwysedd personol sy'n addas ar eich cyfer chi ac yn rhoi amser ichi chwarae a chymdeithasu, a hefyd i fod ar eich pen eich hun. Mae creu trefn a strwythur i'ch diwrnod/ wythnos yn debygol o fod o gymorth.

6. Rho trefn ar eich cyllid

Os ydych chi'n derbyn cyllid myfyrwyr, byddwch yn cael un rhandaliad bob tymor. Felly, mi ddylai eich rhandaliad cyntaf gynnwys eich costau byw - y rhent, bwyd, llyfrau, costau cymdeithasu, tan y 6^{ed} o Ionawr 2020 ac yna mi gewch chi'r rhandaliad nesaf.

I gael cyngor am gyllidebu ewch i wefan yr Uned Cymorth Ariannol neu holwch un o'r staff neu e-bostio'r canllawiau ar unrhyw adeg.

We: <https://www.bangor.ac.uk/student-services/moneyadvice/budgeting.php.cy>

✉ moneysupport@bangor.ac.uk

☎ 01248 38 3566 / 3637

7. Cofiwch weithio.

Bydd gwneud eich gwaith fel y mae'n dod yn ei atal rhag hir-hel, a'r straen a ddaw yn sgil hynny. Cofiwch fod problemau'n tueddu i gynyddu, felly magwch y plwc i'w datrys cyn gynted ag y byddant yn codi.

8. Cofiwch chwarae.

Mae Prifysgol yn lle gwyh i gymdeithasu, i gael hwyl, ac i ddilyn eich diddordebau neu fwynhau chwaraeon. Neilltuwch amser i chwarae ac i ymlacio; bydd yn gymorth ichi gadw'n iach a bod yn fwy cynhyrchiol yn eich gwaith.

9. Gofalwch am eich corff, yn ogystal ag am eich meddwl.

Bydd ymarfer corff rheolaidd, noson dda o gwsg a bwyd iach yn gymorth ichi gael y profiadau gorau o fywyd Brifysgol.

Ar y dechrau, os cewch broblemau o ran trefniadau coginio, bwytwch yn y lleoedd sydd wedi'u darparu. Ceisiwch osgoi cael byrbrydau'n unig. Efallai y cewch fod pobl eraill yn eich neuadd y gallech goginio gyda hwy, ac a allai eich helpu i gychwyn. (Ceir hefyd rai ryseitiau iach a blasus ar wefan Iechyd a Lles:

<http://www.bangor.ac.uk/student-services/wellbeing/index.php.cy>

10. Peidiwch â rhoi amser caled ichi eich hun.

Nid pawb sy'n ei chael yn hawdd cymdeithasu, ac rydym i gyd, weithiau, yn dweud neu wneud pethau yr ydym wedyn yn edifarhau amdanynt. Cofiwch na fyddwch yn cyflawni dim wrth eich cosbi eich hun. Ceisiwch ddysgu pa wers bynnag a fo ichi, yna anghofiwch am y mater, a symudwch ymlaen!

11. Peidiwch â gwneud DIM sy'n gwneud ichi deimlo'n anghyffyrddus.

P'un a fo hynny'n golygu gwario mwy nag y gellwch ei fforddio, defnyddio cyffuriau, cael rhyw, neu hyd yn oed fynd allan pan fyddai'n well gennyh gael noson gynnar. Cofiwch - does dim rhaid ichi wneud dim byd os nad ydych am ei wneud.

12. Rhannwch eich pryderon ... fyddwch chi ddim ar eich pen eich hun.

Nid yw gadael i broblemau Gronni fyth o gymorth. Siaradwch â rhywun: ffrind, aelod o'ch teulu, Arweinwyr Cyfoed, aelod o'r tîm cefnogi myfyrwyr neu o'r gwasanaeth cwnsela.

Tîm Dyslecsia Sesiynau Galw-i-Mewn

Bob diwrnod gwaith yn ystod y tymor, dechrau **23 Medi 2019** rhwng **12:00 a 13:00**, mae'r Tîm Dyslecsia'n cynnig gwasanaeth i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru â'r gwasanaeth.

- **Dydd Llun** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol.
- **Dydd Mawrth** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol.
- **Dydd Mercher** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol.
- **Dydd Iau** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol drwy gyfrwng y **Gymraeg neu'r Saesneg**.
- **Dydd Gwener** - cefnogaeth 1:1 arbenigol gyda sgiliau astudio cyffredinol yn cynnwys **ystadegau**.



Rhowch wybod i Gemma neu Tracey eich bod wedi dod ar gyfer **sesiwn galw-i-mewn** a byddant yn eich cyfeirio at y tiwtor penodol.

Sesiwn Galw Heibio Cynghorwyr Anabledd

Lle:

Gwasanaethau Anabledd, Llawr Gwaelod Isaf, Adeilad Rathbone, Ffordd y Coleg

Pryd:

Dyddiau Mawrth 12.00 - 1.00pm yn ystod y tymor

Cynghorwyr Anabledd:

Ruth Coppell a Stephanie Horne

Ar gyfer pwy?

Unrhyw fyfyrwr sydd ag ymholiad sy'n gysylltiedig ag anabledd neu sydd angen rhywfaint o gyngor ar fater sy'n ymwneud â'r brifysgol.

A allaf drefnu apwyntiad i weld rhywun yn ystod y sesiwn galw heibio?

Does dim angen apwyntiad. Bydd myfyrwyr yn cael eu gweld ar sail gyntaf i'r felin. Fodd bynnag, os hoffech drefnu apwyntiad i gwrdd ag ymgynghorydd ar adeg arall, anfonwch e-bost at: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk, neu ffoniwch: 01248 383620 / 382032



Cyflwyniad i Wasanaethau TG

Dewch i wybod mwy am y cyfleusterau TG y bydd arnoch eu hangen ar gyfer eich cwrs.

Bydd y brifysgol yn trosglwyddo gwybodaeth bwysig i chi trwy e-bost, gan gynnwys; rhybuddion am newidiadau i leoliadau darlithoedd; gwybodaeth bwysig am arholiadau; nodiadau atgoffa am dalu ffioedd. **Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn cael trefn ar eich e-bost o'r cychwyn cyntaf**- mi fyddwch yn synnu faint o'r rhain y cewch yn eich wythnos gyntaf yn y Brifysgol yn unig!



Efallai y bydd eich Ysgol yn cynnig rhai sesiynau ar reoli negeseuon e-bost yn ystod yr Wythnos Groeso. Fel arall, mae'r gwasanaethau TG yn cynnal y gweithdai canlynol yn Ystafell 013, Adeilad Deiniol, Ffordd Deiniol.

Dim angen archebu lle - dim ond dod draw sydd angen!

Dydd Mercher, 18 Medi, 2-3 - Cyflwyniad i gyfleusterau TG i fyfyrwyr newydd
Dydd Mercher, 18 Medi, 3-4 - Cyflwyniad i gyfleusterau TG i fyfyrwyr newydd
Dydd Iau, 19 Medi, 3-4 - Cyflwyniad i gyfleusterau TG i fyfyrwyr newydd

Bydd y Pynciau'n cynnwys:

- E-bost a'r rhyngrwyd ym Mhrifysgol Bangor
- FyMangor - gwasanaethau ar-lein
- Blackboard (amgylchedd dysgu Prifysgol Bangor)
- Rhaglenni eraill i gynorthwyo eich astudio

SensusAccess - troi dogfennau'n ddidrafferth

Sut gall SensusAccess fy helpu?

Hoffech chi anodi cyfnodolyn electronig, neu wrando ar ddogfen yn cael ei darllen yn uchel?



Hoffech chi gael gwell mynediad at yr adnoddau y byddwch yn eu defnyddio neu'n eu darparu?

Mae SensusAccess yn cynnig ffordd ddidrafferth o drosi dogfennau i fformat mwy defnyddiol. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a gall ymdrin hefyd â dogfennau mewn llawer o ieithoedd eraill.

Gall holl aelodau'r Brifysgol ddefnyddio SensusAccess.

Gall **staff** ei ddefnyddio i greu copïau hygyrch o adnoddau i'w rhannu â myfyrwyr a chydweithwyr;

Newyddlen Gwasanaethau Anabledd

Gall **myfyrwyr** ei ddefnyddio i drosi dogfennau a ffeiliau i fformat sy'n addas iddynt; e.e. gall drosi .pdf yn ddogfen i'w golygu er mwyn gallu ei anodi, neu gall greu MP3 o erthygl cyfnodolyn y gellir gwranddo arno;

Gall **aelodau anabl y Brifysgol** ei ddefnyddio i drosi dogfennau i fformatau sy'n addas ar eu cyfer hwy a'u technoleg gynorthwyol.

Lle ydw i'n dod o hyd i *SensusAccess*?

Mae *SensusAccess* yn adnodd ar y we - gallwch ddod o hyd iddo ar wefan y llyfrgell, lle ceir hefyd gysylltiadau i ddeunydd cefnogi. <https://www.bangor.ac.uk/library/sensusaccess.php.cy>

Sesiynau Galw Heibio ar gyngor Iechyd Meddwl

Mae Cheryl Parkinson a Fiona Rickard, Ymgynghorwyr Iechyd Meddwl Prifysgol Bangor, wedi ymuno ag Undeb y Myfyrwyr Bangor i gynnig nifer o sesiynau galw i mewn i fyfyrwyr. Y newydd da yw ein bod, fel rhan o'n partneriaeth, wedi cael ystafell o faint da yn union wrth ymyl y Dderbynfa. Mae'r ystafell yn hawdd mynd iddi ac yn rhoi preifatrwydd.



- **Lle?** Pontio, Undeb Myfyrwyr, Lefel 4
- **Pryd?** Dydd Mercher 2yh-3.30yh
- **Dechrau:** 25 Medi - 18 Rhagfyr 2019

Gan fod nifer dda yn dod i'r Sesiynau galw-heibio, rydym yn cynnig sgwrs fer (dim mwy na 15 munud) wedi hynny byddwn yn cynnig apwyntiad arall i chi neu eich cyfeirio at adnoddau neu wasanaethau priodol eraill. Bydd Gwirfoddolwyr Cyswllt ar gael i gynnig cefnogaeth wrth i chi aros i weld Cyngorydd Iechyd Meddwl.

Gallai hyn fod yn addas i chi ...

Os ydych chi am gael sgwrs gyda Chynghorydd Iechyd Meddwl

Os ydych chi eisiau gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael

Os ydych chi'n poeni am lefelau cynyddol o bryder / straen arholiadau neu astudio

Os ydych yn colli cwsg oherwydd eich pryder

Os ydych yn poeni am ffrind neu am rywun sy'n rhannu tŷ gyda chi

Y Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr yn cynig amrywiaeth o adnoddau er mwyn cefnogi myfyrwyr yn ystod eu hamser yn y Brifysgol.

- Gweithdai Magi Gwytnwch ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd, yn delio â straen, hwyliau a phryder isel;
- Gweithdai MiFedai ar gael i helpu gyda materion fwy penodol i fywyd myfyriwr;
- Mae sesiynau galw heibio ymwybyddiaeth ofalgar ar gael bob bore dydd Mawrth am 11am yn Ystafell Gyfarfod Anecs. Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg.
- Mae cyrsiau seicoaddysgol ar gael trwy atgyfeirio neu ar gais;
- Therapi Grŵp ar gael drwy gais neu gyfeiriad;
- Mae sesiynau cwnsela un i un hefyd ar gael yn dilyn proses asesu trwy gysylltu â'r gwasanaeth.

Gwybodaeth pellach ar gael:

<https://www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/index.php.cy>

neu dros ffon ☎ 01248 388520 neu drwy ✉ i cynghori@bangor.ac.uk



Big White Wall

Mae pobl yn defnyddio'r *Big White Wall* am gymorth gydag amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles - yn amrywio o bryder, iselder, straen a thrawma at broblemau perthynas a heriau ffordd o fyw.

Mae Undeb Bangor wedi ymuno â'r *Big White Wall* er mwyn i bob myfyriwr Bangor, lle bynnag y maent, gael mynediad at amrediad o ffynonellau cymorth at eu hiechyd meddwl.

Mae'r *Big White Wall* yn gwbl ddiennw ac er y gofynnir i chi fewngofnodi trwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr Prifysgol Bangor, dim ond er mwyn gwirio eich bod yn fyfyrwr Bangor a bod gennych hawl i fynediad at y gwasanaeth mae hynny. Ni fydd unrhyw un yn gwybod eich bod wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae cael at y Big White Wall yn hawdd - ewch i www.bigwhitewall.com a mewngofnodi gan ddefnyddio'ch enw defnyddiwr Bangor a bydd gennych fynediad i holl wasanaethau'r *Big White Wall*!



24/7 ONLINE & ANONYMOUS SUPPORT FOR MENTAL HEALTH

**CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL
24/7 AR-LEIN AC YN DDIENW**

Mae gwybod fod Big White Wall yno 24/7 yn rhoi tawelwch meddwl imi

Knowing Big White Wall is there for me 24/7 gives me peace of mind

Big White Wall®

Cewch gefnogaeth Cymryd rheolaeth Teimlo'n well
Get Support Take Control Feel Better

CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO 1:1 A STRATEGAETH ARBENIGOL

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

Darperir y gefnogaeth drwy'r flwyddyn, gan staff cymwys a chofrestredig sy'n rhan o'r Tîm Dyslecsia mewnol yn y Gwasanaethau Anabledd ym Mhrifysgol Bangor.

Bydd staff croesawus yno bob tro byddwch yn ymweld â'n Derbynfaf.



Ystafelloedd unigol un-i-un penodol sy'n darparu lle cyfforddus a chyfrinachol. Mae gan bob ystafell ddwy sgrin gyfrifiadurol, gliniadur (*laptop*) a mynediad at dechnoleg gynorthwyol, digon o le ar ddesg, golau y gellir ei newid er mwyn gwneud yr ystafell yn oleuach neu'n dywyllach, amrywiaeth o gymhorthion dysgu aml-synhwyraidd, bwrdd gwyn, ac mae dŵr yfed wedi'i hidlo ar gael gerllaw.

Ystafell aros gyfforddus lle gall myfyrwyr eistedd ar ôl cyrraedd, ac edrych drwy amrywiaeth o daflenni gwaith strategaethau astudio ac adnoddau eraill sy'n cael eu harddangos. Mae'r adnoddau hyn ar gael i fyfyrwyr fynd â nhw gyda nhw fel bo'r angen.



Mae gan diwtoriaid sgiliau i gefnogi myfyrwyr i ymgorffori'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn ystod eu hastudiaethau.

Yn y llun hwn, mae Dylan yn dangos sut i ddefnyddio'r Pen LiveScribe.

CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO 1:1 A STRATEGAETH ARBENIGOL

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

Croeso i'r Tîm Dyslecsia - sy'n cynnig cefnogaeth sgiliau astudio a strategaeth arbenigol i fyfyrwyr sydd â Gwahaniaethau Dysgu Penodol, fel Dyslecsia, Dyspracsia, Dyscalwlia ac ADHD.

- Rydym yn rhoi cefnogaeth gyda mathemateg, ystadegau a'r iaith Gymraeg.
- Gallwn eich helpu i werthuso eich cryfderau a'ch dulliau astudio presennol a'ch cefnogi mewn meysydd a all fod yn fwy o her i chi. Byddwn yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau fydd yn gwella eich dysgu, mewn meysydd fel:
 - **Sgiliau Rheoli Amser a Threfnu.**
 - **Rhifedd.**
 - **Sgiliau Darllen Academaidd ac Ymchwil.**
 - **Sgiliau ysgrifennu.**
 - **Sgiliau cyflwyno.**
 - **Strategaethau adolygu.**




Gellwch fynd at ein gwefan i gael rhagor o fanylion am gefnogaeth astudio yn:
<http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/dyslexia.php.cy>

Llwyddiannau

Mae Kirsty Holdsworth yn fyfyrwraig nyrsio oedolion trydedd flwyddyn o bentref Rhostryfan, Caernarfon, a fydd yn graddio ym mis Medi 2019.

Ei huchelgais erioed oedd bod yn nyrs, ac mae'n credu mewn sicrhau bod y rhai sydd mewn angen yn derbyn y gofal gorau sydd ar gael. Mae'n teimlo ei bod yn ffrainc mawr gallu cefnogi cleifion sydd angen gofal. Mae'r hyfforddiant wedi bod yn heriol ond roedd Kirsty bob amser yn credu yn ei hunan a'i gallu i oresgyn unrhyw her. Mae ei gwaith caled wedi golygu ei bod nid yn unig wedi llwyddo i gwblhau ei hastudiaethau, ond mae hefyd wedi cael swydd ar ward lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd, yn arbenigo mewn Wroleg a Cholorefrol.

Mae Kirsty yn dweud mae hi yn hynod ddiolchgar am yr holl gymorth y mae wedi'i gael gan y Tîm Dyslecsia, ac mae'n teimlo na fyddai wedi llwyddo yn ei hastudiaethau na chyflawni ei huchelgais i fod yn nyrs heb eu cefnogaeth. Mae'n edrych ymlaen at ddechrau ar ei gyrfa nyrsio.



Kirsty Holdsworth

Da iawn, Kirsty, a llongyfarchiadau ar dy llwyddiant!

Jan yn derbyn cefnogaeth gan Prifysgolion Santander

Mae Jan Lloyd-Nicholson, myfyriwr Seicoleg aeddfed yn y drydedd flwyddyn, wedi derbyn cefnogaeth gan Santander a bu'n siarad yn y lansiad. Yn ogystal â'i hastudiaethau a'i dyletswyddau fel rhiant, mae Jan yn datblygu 'clustog Henry' fel 'pasbort i gyfathrebu' a dull addysgol sy'n helpu i ddeall emosiynau heb eiriau.

Meddai Jan: "Mae'r Brifysgol wedi bod yn hynod gefnogol. Rwyf wedi ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan Cefnogi Myfyrwyr ac mae gen i fentor hefyd. Mae fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygu fy nghynnyrch ac rwy'n ceisio sefydlu busnes a'i wyllo'n tyfu. Rwyf mor falch o fy mab a ddyluniodd y glustog, ac mae'r ffaith ei fod bellach wedi ennill tair gwobr yn fy ngwneud yn frwdfrydig dros ddatblygu'r cynnyrch ymhellach."



Matt Hutnell, Santander Universities UK efo Jan Lloyd Nicholson, John Mahon and Aneta Claridge, myfyrwyr Bangor a Prof Graham Upton.

Newyddlen Gwasanaethau Anabledd

Mae Santander, trwy ei is-adran Prifysgolion Santander, yn cynnal partneriaethau gyda dros 1,200 o sefydliadau academaidd mewn 20 o wledydd. Cyflwynwyd Prifysgolion Santander yn y DU yn 2007 ac erbyn hyn mae gan y banc bartneriaethau gyda dros 80 o brifysgolion, gan ddarparu dros £ 10m o gyllid yn 2018 i gefnogi staff a myfyrwyr prifysgol.

Mae myfyrwyr entrepreneuriaidd Prifysgol Bangor bellach yn medru derbyn cefnogaeth estynedig gan Brifysgolion Santander, wrth i'r Brifysgol lansio rhaglen Sbarduno Menter Santander (SEA).

Mae [SEA](#) yn darparu cyfle unigryw i fyfyrwyr Prifysgol Bangor ac yn annog y rhai hynny sy'n arddel ysbryd o fentergarwch i ddefnyddio'u sgiliau a'u huchelgais i gychwyn busnesau yn y rhanbarth.

Graddio Gorffennaf 2019

Mae myfyriwr a ddisgrifiodd ei hun fel merch 'nerfus, swil a phryderus' pan gyrhaeddodd y brifysgol gyntaf yn dweud ei bod, bedair blynedd yn ddiweddarach, yn gadael Prifysgol Bangor fel 'coedwigwr ac entrepreneur hyderus, uchelgeisiol sy'n barod i herio'r byd'.



Jemima Letts

Fis Gorffennaf eleni graddiodd Jemima Letts, 22, o dref March yn Swydd Caergrawnt, o'r Ysgol Gwyddorau Naturiol gyda gradd BSc mewn [Coedwigaeth](#). Roedd hyn yn benllanw pedair blynedd brysur pryd y daeth dros broblemau iechyd, sefydlu [busnes a wobrwyyd](#) a llwyddo i gael lleoliad yn un o ystadau gwledig mwyaf adnabyddus Prydain, Chatsworth.

Daeth Jemima i werthfawrogi cefn gwlad yn ystod gwyliau haf a dreuliai yn nhŷ ei nain yn Nolgellau, gydag afonydd a choedwigoedd ar garreg y drws, a dyna wnaeth ei harwain i gyfeiriad gradd mewn Coedwigaeth. Gan fod Bangor yn un o ddim ond dyrnoid o brifysgolion sy'n cynnig gradd BSc mewn Coedwigaeth roedd Jemima wedi bwriadu dod i Ddiwrnod Agored yma, ond bu'n rhaid iddi dynnu'n ôl y funud olaf. Fodd bynnag, ar ôl iddi gysylltu â'r Ysgol Gwyddorau Naturiol i egluro'r sefyllfa, fe wnaethant drefnu ymweliad personol iddi hi a'i rhieni, gan roi cipolwg iddynt o Fangor a'r ardal gyfagos a'r cyfleusterau rhagorol sydd yn yr Ysgol.

Meddai Jemima wrth edrych yn ôl ar yr ymweliadau cynnar hynny:

'Pan ddeuthum i Fangor ar ddiwrnod ymweld, cefais groeso gan bawb y deuais ar eu traws. Roedd y darlithwyr yn siarad efo ni ddarpar fyfyrwyr fel pe baem yn gydweithwyr iddynt ac roedd pawb ar delerau enw cyntaf yn fuan. Roedd Ysgol y Gwyddorau Naturiol yn ymddangos yn debycach i deulu nag adran ac mae hyn yn rhywbeth rwy'n dal i deimlo sy'n wir ar ôl pedair blynedd o astudio ynddi.'

Newyddlen Gwasanaethau Anabledd

Yn ystod ei hamser ym Mangor, manteisiodd Jemima i'r eithaf ar y cysylltiadau sydd gan Ysgol y Gwyddorau Naturiol â diwydiant ac, yn ystod ei blwyddyn leoliad, gwirfoddolodd gyda'r International Forestry Students Association (IFSA) a chael cyfle i deithio i Rufain fel rhan o ddirprwyaeth yr IFSA i gyfarfod Pwyllgor Coedwigaeth y Cenhedloedd Unedig a gynhelir bob yn ail blwyddyn. Mae hefyd wedi teithio i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar ôl cael ei phennu'n 'berson ifanc sy'n ysgogi newid' gan yr elusen Drivers for Change.



Jemima yn Nhŷ'r Arglwyddi

Roedd Jemima hefyd yn weithgar yng nghymdeithasau myfyrwyr amrywiol y brifysgol ac ar hyn o bryd hi sy'n dal y record am fod â'r nifer uchaf o bwyntiau [Gwobr Cyflogadwyedd Bangor](#) a ddyfarnwyd erioed.

Fodd bynnag, nid oedd y cyfan yn rhwydd a didrafferth i Jemima oherwydd, ar drothwy ei blwyddyn leoliad, dechreuodd gael trawiadau. Yn y pen draw achosodd y rhain iddi orfod gadael ei hastudiaethau am flwyddyn gyfan a chael profion ysbyty. Ond nid oedd Jemima'n barod i ildio i amgylchiadau, a gwnaeth y gorau o'i hamser i ffwrdd i sefydlu Tree Sparks, menter gymdeithasol a gynlluniwyd i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gyrfaedd coedwigaeth a chynyddu eu hymwybyddiaeth amgylcheddol. Gyda chymorth gan y tîm [Byddwch Fentrus](#) ym Mhrifysgol Bangor, mae Tree Sparks wedi mynd o nerth i nerth, gan gipio nifer o wobrau yn y broses.

Fel myfyriwr graddedig newydd mewn Coedwigaeth, bydd Jemima'n fuan yn dechrau ar leoliad blwyddyn ar Ystâd Chatsworth yn Swydd Derby, gan wneud defnydd da o'r wybodaeth y mae wedi'i chael ym Mangor mewn meysydd fel cadwraeth a rheoli tir.

Mae gan Jemima obeithion mawr ar gyfer y dyfodol ac mae'n gweld ei phwnc yn fwy o ffordd o fyw na chymhwyster yn unig. Meddai:

'Dwi eisiau parhau i weithio ym maes Coedwigaeth cyhyd ag y gallaf. Rwy'n awyddus i ddod yn aelod proffesiynol o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig ac efallai - un diwrnod! - ddod yn gymrawd o'r Sefydliad, ond y peth pwysicaf i mi yw gallu parhau gyda fy siarad cyhoeddus a dal ati i rannu fy angerdd am goed gydag eraill! '

Cyflwyniad i Mark Barrow, Llywydd Undeb Bangor

Ar ôl cwblhau tymor llwyddiannus fel Is-lywydd Addysg eich Undeb Myfyrwyr (Undeb Bangor), etholwyd Mark Barrow i wasanaethu fel Llywydd Undeb Bangor, ar gyfer y flwyddyn academiaidd sydd i ddod.

Ynghyd â'r pedwar Swyddog Sabothol arall, bydd Mark yn llunio ac arwain gwaith Undeb y Myfyrwyr. Caiff y tîm o Swyddogion Sabothol eu hethol gan fyfyrwyr, mewn pleidlais ar draws y campws, i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol, yn cynnwys y byd academiaidd, ac i sicrhau y gallant gymryd rhan mewn chwaraeon, cymdeithasau a gwirfoddoli.



Mark Barrow

Eleni, mae Mark yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Anabledd i hyrwyddo gwahanol agweddau ar y gwasanaeth, fel cynyddu ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr trwy fideos hyrwyddo, a chreu graffeg amrywiol.

Bydd Mark hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Anabledd i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cefnogaeth ddigonol trwy gydol y flwyddyn. Mae gan Undeb Bangor nifer o ddarpariaethau yn eu lle i gynorthwyo gyda hyn, fel yr E-gŵyl, ymgyrch sy'n rhoi gweithgareddau i fyfyrwyr sy'n eu hannog i 'gymryd seibiant', a'r [Wal Fawr Wen](#), gwasanaeth ar-lein sy'n darparu cefnogaeth ddiennw, 24/7 i holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor. Mae gan Undeb Bangor Weithiwr Achos Academiaidd ymroddedig hefyd, sydd yno i'ch helpu a'ch cefnogi gydag unrhyw faterion academiaidd neu gwynion a allai fod gennych.

Bydd Mark hefyd yn gweithio ar nifer o ymgyrchoedd eraill eleni, fel ei ymgyrch 'Dim Tir Llwyd', sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth am ddifrifoldeb trais rhywiol i fyfyrwyr mewn Addysg Uwch, a sut mae'r brifysgol bellach yn cyflogi [Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr](#), a all roi help ac arweiniad i unrhyw ddioddefwr trais rhywiol.

Mae hefyd yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r tîm [Tai](#), sydd wedi'i leoli yn y Gwasanaethau Myfyrwyr, i hysbysu myfyrwyr nad oes angen iddynt fynd i banig wrth chwilio am dŷ, ac yn hytrach dylent gael golwg iawn i weld beth sydd ar gael. Bydd hefyd yn cymryd rhan mewn 'Ymweliadau Gwastraff Cymunedol', sy'n cynnwys ymweld â thai myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â pha eitemau y gellir eu hailgylchu, a rhoi gwybod i fyfyrwyr sut i reoli eu gwastraff.

Mae Mark yn gweithredu Polisi 'Drws Agored', ac mae'n annog myfyrwyr i gysylltu ag ef ar unrhyw adeg, naill ai drwy e-bost yn mark.barrow@undebbangor.com neu'n bersonol. Nid oes unrhyw broblem yn rhy fach i Mark, a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod eich mater yn cael ei ddatrys.

Cyflwyniad i Harry Riley, Is-lywydd Addysg

Graddiodd Harry Riley gyda gradd Meistr mewn Bioleg yn ddiweddar, a chafodd ei ethol i wasanaethu fel eich Is-lywydd Addysg yn Undeb Bangor.

Yn ystod ei bedair blynedd yma ym Mangor, bu Harry yn ymwneud â nifer o wahanol weithgareddau yn cynnwys bod yn arweinydd cyfoed hŷn, Llywydd y Gymdeithas Fiolegol ac yn fwyaf diweddar, yn Gydllynydd Campws Byw. Dechreuodd hefyd yr ymgyrch Bangor Di-blastig gyda'r nod o leihau'r defnydd o blastigau untro ym Mangor.

Dros y flwyddyn nesaf, mae Harry wedi ymrwymo i wella addysg a lles pob myfyriwr ym Mangor. Mae eisiau gweithio gyda'r [tîm cyflogadwyedd](#) i ddarparu ffair yrfaedd mwy o faint a mwy cynhwysfawr a fyddai'n gwella rhagolygon graddedigion holl fyfyrwyr Bangor.

Hoffai weithio hefyd gyda chymdeithasau dysgedig ledled y DU, fel y Gymdeithas Frenhinol Bioleg, i roi llawer mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr wrth iddynt astudio.

Meddai Harry, "Cefais fy ethol drwy lais y myfyrwyr ac felly rwyf yma i wrando. Os byddwch angen unrhyw help, dewch draw i'm gweld, mae gennyf bolisi drws agored. Gallwch hefyd gysylltu â mi ar harry.riley@undebbangor.com"



Harry Riley

Cynrychiolwyr Cwrs

Mae Cynrychiolwyr Cwrs yn fyfyrwyr sy'n cael eu hethol gan eu cyfoedion i gynrychioli barn myfyrwyr am faterion sy'n ymwneud â'u profiad academaidd. Maent yn mynd i gyfarfodydd gyda staff yn eu hysgolion a'u colegau, yn ogystal â chyfarfodydd Undeb Bangor, i sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed ledled y brifysgol.

Eleni byddwn yn ethol Cynrychiolydd Myfyrwyr Anabl i bob ysgol. Mae'r Cynrychiolydd Myfyrwyr Anabl yno i gynrychioli'r holl fyfyrwyr anabl (gan gynnwys rhai â nam corfforol, cyflyrau iechyd parhaus, materion iechyd meddwl a gwahaniaethau dysgu penodol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain chwaith). Bydd ganddynt brofiad personol o fod yn fyfyrwr anabl ym Mangor ac o'r system Cynllunio Cefnogi Dysgu Personol (PLSP), a byddant yn gwybod am y cyfleusterau sydd ar gael i fyfyrwyr anabl. Byddant yn cyfathrebu â myfyrwyr anabl ar eu cyrsiau i ddarganfod beth yw'r materion a'r pryderon sydd ganddynt ac yna byddant yn rhoi gwybod i reolwyr am y rhain er mwyn sicrhau bod unrhyw rwystrau sy'n atal dysgu yn cael eu dileu. Byddant hefyd yn cyfeirio myfyrwyr at diwtor anabledd yr ysgol neu at y Gwasanaethau Anabledd i edrych ar strategaethau unigol, yn ogystal ag at adnoddau defnyddiol, gan gynnwys y Wal Fawr Wen, gwefan y Gwasanaethau Anabledd, etc.

Fel cynrychiolydd cwrs byddwch yn ennill llawer o sgiliau a fydd yn wych i'ch CV, yn ogystal â chael cyfleoedd i gynnal digwyddiadau a gweithio'n agos gyda'ch ysgol. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer pob cynrychiolydd, felly peidiwch â phoeni os ydych chi'n teimlo nad oes gennych chi'r holl sgiliau i fod yn gynrychiolydd eto! Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn gynrychiolydd cwrs, cadwch lygad am y cyfnod enwebu yng nghanol mis Medi, ewch i undebbangor.com/course_reps neu anfonwch e-bost at coursereps@undebbangor.com!



UNITE Bangor

Beth yw hwn?

Grŵp cefnogi dan arweiniad myfyrwyr yw UNITE Bangor a lle diogel i fyfyrwyr sydd ar y sbectrwm Awtistaidd (neu'n aros am ddiagnosis) i rannu syniadau, rhannu strategaethau ar gyfer ymdopi a thrafod yr heriau a'r anawsterau y maent yn eu profi yn y brifysgol.

Pam wnaethom ni ddechrau'r grŵp?

Roedd creu "lle diogel" lle gall pobl deimlo'n gyfforddus yn un o'r prif resymau am ei sefydlu. Hefyd, mae sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu siarad am anawsterau sy'n eu hwynebu, ymysg cyfoedion heb gael eu beirniadu, yn fuddiol iawn.

Er mai megis dechrau ydym ni, mae gennym gynlluniau mawr ar gyfer y grŵp. Rydym wedi bod yn cyfarfod ers mis Ionawr eleni ac yn gobeithio parhau i dyfu ac ehangu'r hyn fyddwn yn ei wneud dros y flwyddyn i ddod.

Pwy sy'n gyfrifol amdano?

Mae'r grŵp o dan arweiniad myfyrwyr yn bennaf, gyda dau o fyfyrwyr, Beth a Daisy yn hwyluso.

Pryd caiff ei gynnal?

Nid yw diwrnod ac amser y cyfarfodydd wedi'u cadarnhau hyd yma - ond bydd posteri a thafleuni i'w gweld o amgylch y campws yn cynnwys y manylion!

Beth sy'n digwydd mewn cyfarfodydd?

Mae'r trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn y mae'r aelodau'n ei godi ac eisiau ei drafod, boed ar lafar mewn cyfarfod, drwy'r ffurflen anhysbys ar-lein neu dudalen y grŵp ar Facebook.

Gobeithir y bydd y lle anffurfiol a chyfforddus hwn yn helpu i gynyddu'r teimlad o undod ymhlith myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor sydd ag ASD.

Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Byddwn o amgylch y brifysgol yn ystod yr Wythnos Groeso a byddwn yn Serendippedd gobeithio, a dylech weld posteri o amgylch y campws.

Fel arall, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gwrdd â ni cyn dod i'r grŵp, cysylltwch â ni.

Manylion cysylltu:

Beth - edu4a3@bangor.ac.uk Daisy - bsu925@bangor.ac.uk

Achubiaeth Strategaethau Datblygol



Socialeyes

Mae Socialeyes yn ddull sefydledig o gefnogi dealltwriaeth gymdeithasol a strategaethau ymdopi pobl awtistig. Mae'n cael ei redeg yn wythnosol ar ffurf grŵp bach.



Dull newydd ac arloesol yw Socialeyes, a ddatblygwyd gan y NAS, o hwyluso sgiliau cymdeithasol a dealltwriaeth gymdeithasol gyda phobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. Nid yw Socialeyes yn gofyn i bobl ar y sbectrwm awtistiaeth newid ymddygiad cymdeithasol 'amhriodol', neu ddatblygu sgiliau cymdeithasol drwy gopïo ymddygiad 'nodweddiadol' eraill. Yn hytrach, mae'n rhoi dewis i bobl ddysgu sgiliau ymwneud cymdeithasol neu strategaethau cymdeithasol amgen.

Unwaith eto eleni mae'r Cynghorwyr Anabledd yn bwriadu cynnal y Rhaglen Socialeyes i fyfyrwyr ar y sbectrwm awtistiaeth ond mae hyn yn dibynnu ar y nifer fydd yn cymryd rhan. Bydd pob myfyriwr sydd wedi rhoi gwybod i ni bod ganddynt gyflwr sbectrwm awtistiaeth yn derbyn e-bost gyda rhagor o wybodaeth pan fydd ar gael. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn bresennol neu hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch drwy e-bost socialeyes@bangor.ac.uk

R N I B

Cymru

Golwg gwahanol

See differently

Grŵp ffôn newydd i fyfyrwyr!

Hoffech chi sgwrsio â myfyrwyr eraill sy'n ddall neu'n rhannol ddall am astudio a chymdeithasu yn eich prifysgol neu goleg?

Fy enw i yw Arafa, rwy 'n myfyriwr yng Nghaerdydd a hoffwn sefydlu grŵp cymdeithasol trwy Skype neu 'r ffôn i gwrdd a chefnogi myfyrwyr eraill sydd wedi colli eu golwg o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch hwylusydd cymunedol RNIB Cymru, Eleanor Rothwell:

Ffôn 07702821915 / 02920828565

e-bostiwch eleanor.rothwell@rnib.org.uk



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



- Ydych chi'n wynebu rhwystrau mewn perthynas ag anabledd, oes gennych chi wahaniaeth dysgu penodol e.e. dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), oes gennych chi anhawster iechyd meddwl?
- Hoffech chi gael help gyda dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol er mwyn datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd?
- Ydych chi'n 24 oed neu iau?

Os felly, mae'r Cyngorwyr Project **GO Wales** yma i helpu.

Gyda chefnogaeth ymgynghorydd, byddwn yn gweithio gyda chi wyneb yn wyneb, i edrych ar y dewisiadau gorau i chi o ran cyfleoedd profiad gwaith, eich cefnogi ar hyd y daith a'ch helpu i feithrin hyder.

Bydd y lleoliadau wedi'u teilwra i fod yn addas i chi, eich bywyd, eich astudiaethau ac ymrwymadau eraill sydd gennych. Gallant bara rhwng 1 a 20 diwrnod. Efallai hefyd y gallwch gael help gyda chostau teithio a chostau gofal plant os oes angen.



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



gowales@bangor.ac.uk - 01248 388159 - www.gowales.co.uk

Mae'r Tîm GO Wales wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth sgiliau a Chyflogadwyedd, Neuadd Rathbone. Os oes arnoch angen gwybodaeth mewn fformat arall megis print bras neu fersiwn lafar, cysylltwch â ni.



**Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith**
**Achieve through
Work Experience**



Adborth gan fyfyrwyr sydd wedi cwblhau lleoliadau gwaith trwy GO Wales

“Byddwn yn argymhell GO Wales i unrhyw un sydd eisoes yn meddwl am wneud cais, oherwydd hebddynt ni fyddwn i wedi gallu cael y profiad perthnasol yr oedd ei angen arnaf. Yn fy achos i roeddwn eisoes yn hyderus o ran y llwybr gyrfa yr oeddwn am ei gymryd, ond i'r rhai sy'n ansicr mae'n bosibl cael ystod eang o leoliadau”.

“Ewch amdani. Meddyliwch beth rydych chi eisiau ei gyflawni ac i ba gyfeiriad rydych chi eisiau mynd. Meddyliwch am y math o sgiliau rydych chi angen eu datblygu neu eu gwella a meddyliwch pa fath o leoliad fyddai'n eich helpu chi i wneud hynny. Rydych chi mewn dwylo da iawn efo Tîm GO Wales. Mi fyddan nhw'n gwneud eu gorau glas i'ch cefnogi a'ch helpu chi i ddilyn y trywydd rydych chi eisiau ei ddilyn”.

“Byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais i fynd amdani a bod yn barod i roi cynnig ar rywbeth newydd. Fe'ch cefnogir yn wych drwy gydol y broses gyfan ac mae eich anghenion a'ch diddordebau yn cael eu hystyried o ddifri wrth ddod o hyd i leoliad i chi”.

“Roedd y gefnogaeth ges i gan yr adran GO Wales ym Mangor yn rhyfeddol, ac fe wnaethon nhw helpu gyda'r broses o wneud cais am leoliad gwaith a galluogi i hynny ddigwydd. Hefyd, byddwch yn barod i weithio'n galed. Mae'r lleoliad yn rhoi'r cyfle i chi ddangos i gyflogwyr beth fedrwch chi ei gynnig iddyn nhw, felly ewch yno, gweithio'n galed a mynnu llwyddo”.

“Os ydych chi'n gymwys, mae hwn yn gynllun y dylech yn bendant gymryd rhan ynddo. Mae'r ymgynghorwyr yn barod i helpu ac yn fedrus iawn wrth gael profiad gwaith penodol i ddiwydiant. Heb y cynllun GO Wales byddwn yn dal i wynebu fy rhwystrau rhag cael gwaith”.

gowales@bangor.ac.uk

Gwasanaethau Myfyrwyr

Student Services



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Cymorth Myfyrwyr
 - Tai Myfyrwyr
 - Cymorth Ariannol
 - Iechyd Myfyrwyr
 - Newid/Gadael Eich Cwrs
- Gwasanaethau Anabledd
 - Canolfan Asesu
 - Tîm Anabledd
 - Tîm Dyslecsia
 - Cynghorwyr Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Cynghori
- Gweinyddiaeth Myfyrwyr
- Ennyn Diddordeb Myfyrwyr

- Skills and Employability
- Student Support
 - Student Housing
 - Money Support
 - Student Health
 - Changing/Leaving Your Course
- Disability Services
 - Assessment Centre
 - Disability Team
 - Dyslexia Team
 - Mental Health Advisers
- Counselling Service
- Student Administration
- Student Engagement Unit

www.bangor.ac.uk/student-services
gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk
studentservices@bangor.ac.uk
01248 382024
Neuadd Rathbone
Ffordd y Coleg / College Road



Ein Manylion Cyswllt

Pennaeth Gwasanaethau Anabledd

Carolyn Donaldson-Hughes

✉ ghwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Rheolwr Tîm Dyslecsia

Jane Jones

✉ pss204@bangor.ac.uk

Uwch Gynghorwr Anabledd

Esther Griffiths

Cynghorwyr Anabledd Myfyrwyr

Ruth Coppell / Steph Horne

✉ cynghorwrabledd@bangor.ac.uk

Cynghorwyr Iechyd Meddwl

Fiona Rickard / Cheryl Parkinson

✉ cynghorwriechydmeddwl@bangor.ac.uk

Cynghorwyr ADP

Andrea Reynolds / Rafaela Williams

✉ cynghorwrdyslecsia@bangor.ac.uk

Dylan Griffiths

Rheolwr Gwasanaeth Asesu

Asesu Anghenion Astudio

✉ canolfan_access@bangor.ac.uk

Asesu Diagnostic

✉ assessment@bangor.ac.uk

Cydlynnydd Cymorth Anfeddygol

Christine Roberts

✉ gwaithcefnogi@bangor.ac.uk

Gweinyddwr

Tracey Morris

✉ ghwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Cynorthwydd Gweinyddol

Gemma Watts

✉ ghwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

☎ Gemma neu Tracey ar 01248 383620 / 382032 neu ✉ ghwasanaethanabledd@bangor.ac.uk i wneud apwyntiad.

Am fanylion am y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Anabledd ewch at

<http://www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfirwyr/anabledd>

I wneud apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Cynghori, ☎ Helen ar 01248 388520 neu

✉ cynghori@bangor.ac.uk

Os nad ydych am dderbyn copi o'r cylchlythyr chwarterol, anfonwch e-bost at:

ghwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Gwasanaethau Myfyrwyr -
Cymeradwywyd gan y Corff Achredu Matrix

